# CYNGOR SIR DDINBYCH
# HYSBYSIAD O GYNYGION
# Ffyrdd Amrywiol, Llangollen
# Dim Aros Ar Unrhyw Adeg, Dim Llwytho Ar Unrhyw Adeg a Chyfyngu ar Aros

(Gwahardd a Chyfyngu ar Aros a Llwytho a Mannau Parcio) (Cydgrynhoi) Amrywiad Rhif___ Llangollen 2026.

**RHODDIR RHYBUDD DRWY HYN** bod Cyngor Sir Ddinbych ("y Cyngor") yn ymarfer ei bwerau o dan Ddeddf Rheoleiddio Traffig Ffyrdd 1984 ac ar ôl ymgynghori gyda Phrif Swyddog yr Heddlu, yn cynnig gwneud y Gorchymyn a enwir uchod, a bydd ei effaith fel y disgrifir yn yr atodlen isod.

Nodir manylion llawn y cynigion yn y Gorchymyn drafft ynghyd â'r cynlluniau atodol a datganiad o'r rhesymau ar gyfer cynnig i wneud y Gorchymyn, i'w gweld ar-lein ar wefan y Cyngor.

Gellir archwilio copi o'r Gorchymyn arfaethedig, a map sy'n dangos y darnau o ffordd y mae'r cynigion yn berthnasol iddynt, a datganiad o resymau'r Cyngor dros gynnig gwneud

Mae'r ddogfen hon ar gael yn Saesneg. This document is available in English.

y Gorchymyn, yn ystod oriau swyddfa arferol yn Llyfrgell Llangollen, y Capel, 19-21 Heol y Castell, Llangollen, Sir Ddinbych, LL20 8NU.

Gall unrhyw un sy’n dymuno gwrthwynebu’r Gorchymyn arfaethedig wneud hynny drwy gyflwyno ymatebion i holiadur ynglŷn â’r cynigion ar wefan Cyngor Sir Ddinbych (www.sirddinbych.gov.uk/ymgynghoriadau) neu drwy anfon datganiad ysgrifenedig yn gwrthwynebu, yn nodi’r seiliau i’r gwrthwynebiad, at y Pennaeth Gwasanaeth, Gwasanaethau Cymorth Corfforaethol: Pobl, Cyngor Sir Ddinbych, Blwch Post 62, Rhuthun, LL15 9AZ, erbyn 03/06/2026 fan bellaf. Dylid nodi y gallai cynnwys unrhyw sylwadau y mae’r cyngor yn eu derbyn fod ar gael i'r cyhoedd ei archwilio.

## Atodlen

**Darnau o Ffordd yn Llangollen yn Sir Ddinbych**

**Dim Aros Ar Unrhyw Adeg, Dim Llwytho Ar Unrhyw Adeg a Chyfyngu ar Aros**

**Mae’r Gorchymyn hwn yn effeithio ar y ffyrdd canlynol yn Llangollen**

- Heol y Farchnad
- Sgwâr y Neuadd
- Willow Street
- Maes Helyg

Dyddiedig 13/05/2026



Catrin Roberts, Pennaeth Gwasanaeth, Gwasanaethau Cymorth Corfforaethol Pobl, Cyngor Sir Ddinbych, Neuadd y Sir, Ffordd Wynnstay, Rhuthun, Sir Ddinbych

Mae’r ddogfen hon ar gael yn Saesneg. This document is available in English.